

Strategaeth Carbon Sero Net PDC 2020 - 2030

Ystadau a Chyfleusterau

Fersiwn	Dyddiad Cyhoeddi	Disgrifiad o'r diwygiad	Awdur	Cymeradwywyd gan a Dyddiad	Dyddiad yr Adolygiad Nesaf
1.0	27/10/2020	Rhifyn Cyntaf	A Milanese		
1.1	04/02/2021	Adolygu uchelgais sero net PDC	A Milanese	JE Lydon 04/02/2021	01/02/2022
1.2	28/05/23	Ychwanegu adrannau newydd a diweddaru llinellau sylfaen a chynnydd yn erbyn targedau.	N Bradley	B. Gule 2 18/07/2023	17/07/2026
1.3	15/07/26	Diweddaru targedau ac amcanion, perfformiad a gwerthoedd sylfaen	N Bradley	MD Bessell 20/07/2026	

Cynnwys

Crynodeb Gweithredol	Error! Bookmark not defined.
Cyflwyniad – Ein Taith i Sero Net	Error! Bookmark not defined.
Ynglŷn â'r cynllun hwn	Error! Bookmark not defined.
Beth a olygir gan Sero Net?.....	Error! Bookmark not defined.
Pam ei fod yn bwysig i PDC gyflawni Sero Net?	Error! Bookmark not defined.
Pwy sy'n gyfrifol am gyflawni'r Strategaeth Sero Net hon?	Error! Bookmark not defined.
Ein Hamcanion Strategol hyd at 2030	Error! Bookmark not defined.
Beth yw ein prif ffynonellau o allyriadau?	Error! Bookmark not defined.
Llinellau sylfaen.....	Error! Bookmark not defined.
Cynnydd wrth leihau allyriadau.....	Error! Bookmark not defined.
Gyrwyr Deddfwriaethol	Error! Bookmark not defined.
Llywodraethu a Rôl.....	Error! Bookmark not defined.
Rhagamcaniad Allyriadau Carbon PDC (2018/19 – 2030)	Error! Bookmark not defined.
Amcanion a Thargedau.....	Error! Bookmark not defined.
Ffactorau allanol sy'n effeithio ar ein targedau	Error! Bookmark not defined.
Datgarboneiddio'r Grid.....	21
Buddsoddi yn ein hystâd.....	Error! Bookmark not defined.
Gweithredu a monitro.....	28
Cyllid ac Adnoddau	Error! Bookmark not defined.
Atodiadau.....	Error! Bookmark not defined.

Crynodeb Gweithredol

Newid hinsawdd yw her ddiffiniol ein hoes. Fel sefydliad addysgol sylfaenol yng Nghymru, mae Prifysgol De Cymru (PDC) yn derbyn ei chyfrifoldeb i fwrw ymlaen â datgarboneiddio ei gweithgareddau a'i gweithrediadau. Mae ein Strategaeth Sero Net yn cyd-fynd yn agos â'n Strategaeth 2030 ar gyfer PDC ac yn gwasanaethu fel y fframwaith pendant i gyflawni ein gweledigaeth eithaf o ddod yn sefydliad Sero Net erbyn 2040.

Rydym yn gweithredu yng nghyd-destun ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyrraedd 100% Sero Net erbyn 2050. Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu “uchelgais ar y cyd” i Sector Cyhoeddus Cymru fod yn Sero Net erbyn 2030. Er nad yw'n gyfraith statudol ar gyfer sefydliadau unigol, mae'n gweithredu fel y prif ysgogydd polisi ar gyfer cyrff cyhoeddus a phrifysgolion Cymru.

Er mai ein targed sefydliadol cyffredinol yw 2040, rydym yn cyflymu gostyngiadau sy'n benodol i ystadau a gweithrediadau yn unol â cherrig milltir arweinyddiaeth sector cyhoeddus Cymru, ond byddwn yn cynnal y flwyddyn darged hon fel amserlen fwy realistig ar gyfer datgarboneiddio pob cwmplas carbon.

Yn dilyn gostyngiad cychwynnol o 32% mewn allyriadau Cwmpas 1 a 2 rhwng ein llinell sylfaen 2012/13 a 2018/19, rydym wedi cynnal llwybr i lawr cyson drwy ffenestr perfformiad pum mlynedd:

- **Cwmpas 1 a 2:** Ers 2018/19, er gwaethaf newid deinameg ac esblygu ôl-troed y campws, cyflawnodd PDC ostyngiad pellach o 44% mewn allyriadau sy'n seiliedig ar y farchnad. Cafodd hyn ei yrru gan welliannau effeithlonrwydd ynni wedi'u targedu, uwchraddio ffabrig, ehangu gosodiadau ffotofoltäig solar ar y safle, cyflwyno LED, optimeiddio BMS, ymgysylltu a datgarboneiddio cyflym grid trydan y DU.
- **Her Cwmpas 3:** Er bod Cwmpas 1 a 2 (nwy, fflyd, a thrydan uniongyrchol) wedi gostwng yn sylweddol, amlygodd ein llinell sylfaen data esblygol hyd at 2022/23 fod caffael cadwyn gyflenwi, cymudo, a theithio rhyngwladol myfyrwyr yn cynrychioli ein heriau carbon mwyaf heriol.

Er mwyn cyflawni ein gweledigaeth Net Sero, mae'r strategaeth hon yn cynnig y canlynol:

- Byddwn yn sefydlu Pwyllgor Cynaliadwydd i oruchwylio, darparu adnoddau a gyrru mentrau lleihau carbon ar draws holl weithrediadau'r brifysgol.
- Byddwn yn cyflawni Map Ffordd Carbon PDC drwy fframwaith o atebolrwydd, gweithredu wedi'u dargedu ac eglurder
- Byddwn yn datblygu targedau lleihau sy'n benodol i weithgareddau ar draws pob cyfran fesuredig o'n hól troed carbon.
- Byddwn yn blaenoriaethu ffocws ac yn gweithredu gwelliannau lle maent bwysicaf; yn ein cadwyn gyflenwi, ein defnydd o ynni a theithio, sy'n cynrychioli ein ffynonellau allyriadau mwyaf.

- Byddwn yn parhau i gynnal momentwm ac adeiladu ar y gostyngiad o 32% mewn allyriadau Cwmpas 1 a 2 a gyflanwyd ers ein llinell sylfaen 2012/13.
- Byddwn yn diweddarau ac yn adrodd ar ein hól traed carbon yn flynyddol i fonitro cynnydd. Bydd data a cherrig milltir allweddol yn cael eu cyflwyno i'r Weithrediaeth a Bwrdd y Llywodraethwyr a'u cyhoeddi'n gyhoeddus er mwyn bod yn hollol blaen.

Bydd y ffordd i Sero Net yn cynnwys rhwystrau technegol ac ariannol, ond rydym wedi ymrwymo ar lefel sefydliad cyfan i gynnal y momentwm hwn.

Cyflwyniad – Ein Taith i Sero Net

Fel chwaraewr mawr ym maes addysg uwch yn Ne Cymru, mae Prifysgol De Cymru (PDC) yn ymestyn dros bum campws ar draws Caerdydd, Pontypridd, a Chasnewydd. Gyda 72 o adeiladau a chymuned fywiog o 16,000 o fyfyrwyr, rydym yn cydnabod bod ein hól troed gweithredol yn cario cyfrifoldeb amgylchedd dwys – yn lleol, yn rhanbarthol, ac yn fyd-eang.

Rydym eisoes wedi profi ein hymrwymiad, gan gyflawni gostyngiad o 32% mewn allyriadau carbon erbyn 2018/19 yn erbyn ein llinell sylfaen yn 2012/13. Fodd bynnag, mae ymateb i'r argyfwng hinsawdd yn galw am gamau mwy beiddgar a brys. Er mwyn cyd-fynd â deddfwriaeth Llywodraeth y DU a Chymru, fe wnaethom esblygu ein Strategaeth Amgylcheddol wreiddiol, a ddatblygwyd yn 2015 yn Strategaeth Carbon Sero Net wedi'i mireinio gyda mwy o ffocws. Mae'r ddogfen hon yn diweddarau'r strategaeth wreiddiol ac yn dod â'n ffrydiau gwaith allweddol a'n targedau ac amcanion diwygiedig i ffocws yn dilyn 5 mlynedd o welliannau wedi'u targedu a lleihau carbon.

Rydym am arwain drwy esiampl ac mae gennym yr uchelgais i gyflawni sero net fel sefydliad erbyn 2040. Mae cyrraedd y targed hwn yn gofyn am newid trawsnewidiol ar draws ein hystâd gyfan. Mae'r strategaeth hon yn sefydlu'r llywodraethu i yrru'r newid hwnnw, gan osod y sylfaen ar gyfer Map Ffordd Carbon 10 Mlynedd sy'n cyd-fynd â'n Strategaeth PDC 2030. Drwy dargedu ein gweithgareddau gyda'r allyriadau uchaf, bydd y map ffordd hwn yn cyflawni camau gweithredu clir, ymarferol a chost-effeithiol ar draws ein hystâd, llywodraeth, addysg ac ymgysylltu cymunedol, gan droi ein cyfrifoldeb hinsawdd yn effaith garbon fesuradwy.

Yn unol yn llwyr â mandad Llywodraeth Cymru ar gyfer sector cyhoeddus sero net a dyletswyddau statudol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), mae'r ddogfen hon yn amlinellu sut y bydd PDC yn lleihau ei hól troed carbon wrth feithrin diwylliant mwy gwydn a chyfrifol.

Rydym yn cydnabod bod ein heffaith yn ymestyn ymhell y tu hwnt i'n hystadau corfforol. Fel sefydliad sy'n ymroddedig i baratoi myfyrwyr ar gyfer gweithlu'r dyfodol, bydd ein llwybr ar Sero Net yn gwasanaethu fel 'labordy byw' – gan ymgorffori sgiliau gwyrdd yn ein cwricwlwm, gan yrru arloesedd cynaliadwy trwy ein hymchwil, a chefnogi twf y brifysgol yn uniongyrchol.

Mae cyflawni Sero Net yn gofyn am drawsnewidiad yn y ffordd rydym yn cynhesu ein hadeiladau, sut rydym yn defnyddio ac yn cynhyrchu ynni, yn rheoli ein campysau, yn teithio,

ac yn cyrchu ein nwyddau a'n gwasanaethau. Mae'n galw am weithredu ar y cyd gan ein cymuned brifysgol gyfan – ein myfyrwyr, ein staff, a'n partneriaid rhanbarthol. Mae'r her yn enfawr, ond mae'r cyfle i lunio dyfodol glanach a mwy llewyrchus i PDC yn fwy.

Ynglŷn â'r cynllun hwn

Mae'r strategaeth hon yn cwmpasu'r cyfnod 1af Awst 2020 i 31ain Gorffennaf 2030. Wedi'i chanoli o amgylch egwyddor lleihau-yn-gyntaf llym, ein blaenoriaeth yw dileu allyriadau absoliwt ar draws ein hystâd cyn defnyddio offsetio fel dewis olaf.

Cwmpas a Ffin

Rheolaeth Uniongyrchol (Cwmpasau 1 a 2): Lleihau allyriadau gwresogi a thrydan ar y safle.

Effaith Anuniongyrchol (Cwmpas 3): Gwellu aeddfedrwydd data i sefydlu llinell sylfaen gadarn a chynllun gweithredu wedi'i dargedu ar gyfer ein cadwyn gyflenwi a'n gweithrediadau ehangach.

Mewn partneriaeth â'r Ymddiriedolaeth Carbon, sefydlodd PDC llinell sylfaen carbon 2018/19 o **24,480 tonnell**, wedi'i chyfrifo gan ddefnyddio data gwirioneddol a oedd ar gael ar y pryd.

Gan olynu ein strategaeth amgylcheddol flaenorol, mae'r cynllun hwn yn gwasanaethu fel ein fframwaith llywodraethu sylfaenol sy'n ein hymrwymo i'n targedau interim. Bydd cynnydd yn parhau i gael ei feincodi'n blaen trwy gyflwyniadau Cofnod Rheoli Ystadau (EMR) blynyddol HESA.

Beth a olygir gan Sero Net?

Mae cyrraedd sero net yn golygu lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr nes ei fod mor agos at sero â phosib, ac yna cydbwysu unrhyw allyriadau anochel sy'n weddill trwy dynnu swm cyfartal o'r atmosffer. Mae cyflawni hyn ar gyfer PDC yn gofyn am fynd i'r afael â thri chategori gwahanol o allyriadau, a elwir yn Cwmpas a mesur allyriadau nwyon tŷ gwydr yn unol â safon gadarn (h.y. y Protocol Nwyon Tŷ Gwydr), ffocws ar leihau allyriadau a chael gwared neu ddigolledu allyriadau gweddilliol unwaith na allwn leihau allyriadau ymhellach.

Camgymerir Sero Net â chyflawni allyriadau 'sero' yn aml ond nid yw hyn yn wir gan y byddwn yn parhau i ddefnyddio ynni a chynnal gweithgareddau a gweithrediadau sydd ag effaith garbon i wasanaethau ein myfyrwyr a'n staff presennol a'n dyfodol.

Mae targedau Sero Net yn gysylltiedig â Chytundeb Paris sy'n amlinellu'r nod i 'gyflawni cydbwysedd rhwng allyriadau anthropogenig gan ffynonellau a thynnu nwyon tŷ gwydr gan ddalfa yn ail hanner y ganrif'.

Mae gan PDC dargedau hirdymor i gyflawni sero net erbyn 2040 ond am gyfnod y cynllun hwn hyd at 2030, rydym yn canolbwyntio ar leihau allyriadau yn unig. Ein nod fydd canolbwyntio ar ddatgarboneiddio ein hystâd cyn i ni ystyried unrhyw gynlluniau offsetio i gael gwared ar yr allyriadau gweddilliol anochel.

Er mwyn cyflawni Net Sero, mae'n hanfodol bod allyriadau Cwmpas 3 yn cael eu cynnwys o fewn ffiniau ein gweithrediadau ac oherwydd hyn rydym yn bwriadu mynd i'r afael â'n hallyriadau cwmpas 3 anuniongyrchol yn gynt na'r hwyrach i wella ein dealltwriaeth o'u heffaith, gan wella'r prosesau rydym yn eu mabwysiadu ar gyfer casglu data ar bob ffynhonnell o effaith carbon.

Pam ei fod yn bwysig i PDC gyflawni Net Sero?

Mae PDC wedi ymrwymo i ddangos arweinyddiaeth weladwy mewn cynaliadwyedd amgylcheddol drwy gyflawni 'net sero erbyn 2040'. Mae hyn yn golygu effaith net sero ar y blaned, ac mae angen ymrwymiad i gyflawni rhagoriaeth mewn cynaliadwyedd amgylcheddol, cymdeithasol ac ariannol wrth ymdrechu i ymgorffori cynaliadwyedd ym mhopeth a wnawn.

Fel rhan o gymuned leol a chenedlaethol sy'n gweithio i fynd i'r afael â her newid hinsawdd, byddwn yn dangos ein hymrwymiad drwy ein hymchwil, ein haddysgu, a rheoli ein gweithrediadau a'n buddsoddiadau i leihau ein heffaith ar yr amgylchedd yn barhaus.

Yn dilyn adolygiad helaeth o allyriadau'r brifysgol, mae'r strategaeth hon yn nodi'r prif ysgogwyr sydd angen y ffocws, y buddsoddiad a'r targedau uchelgeisiol mwyaf a fydd yn mynd â ni i 2030 i sicrhau ein bod yn parhau ar y trywydd iawn i gyflawni net sero erbyn 2040 ar gyfer pob cwmpas o allyriadau.

Mae gan Gymru dargedau sy'n rhwymo'n gyfreithiol i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a chyrraedd net sero. Mae prifysgolion yn sefydliadau mawr sy'n defnyddio ynni, yn gweithredu adeiladau, yn cefnogi teithio, ac yn prynu llawer iawn o nwyddau a gwasanaethau. Drwy leihau ein hallyriadau, rydym yn cyfrannu'n uniongyrchol at ymdrechion cenedlaethol a byd-eang i gyfyngu newid hinsawdd.

Pwy sy'n gyfrifol am gyflawni'r Strategaeth Sero Net hon?

Mae cydlynu'r cynllun hwn yn eistedd o fewn yr adran Ystadau a Chyfleusterau, ond mae cyflawni'r strategaeth hon yn gofyn am ymrwymiad ar bob lefel o PDC er mwyn gwireddu canlyniadau llwyddiannus. Cyfrifoldeb y staff, myfyrwyr am ymwelwyr i gyd yw dangos perchnogaeth weithredol o'r nodau hirdymor yn y cynllun hwn i sicrhau ein bod yn cyflawni ein huchelgeisiau sero net.

Yn seiliedig ar ehangder y ffynonellau allyriadau sydd gennym ar hyn o bryd, mae rhai adrannau mewn gwell sefyllfa i gael mwy o ddylanwad dros leihau carbon fel Ystadau a Chyfleusterau a Chaffael (cadwyn gyflenwi). Mae unigolion allweddol o'r adrannau hyn yn aelodau o Bwyllgor Cynaliadwyedd PDC, dan gadeiryddiaeth Cyfarwyddwr Ystadau a

Chyfleusterau, sy'n cyfarfod tair gwaith y flwyddyn gan sicrhau llywodraethu ac adolygiadau ffurfiol o gynnydd yn erbyn ein targedau.

Yna adroddir ar gynnydd ar gamau gweithredu i Bwyllgor Gweithredol a Llywodraethwyr PDC yn flynyddol (sydd â'r atebolrwydd pennaf), gan sicrhau eu bod yn parhau i gefnogi ein cyfeiriad teithio ac yn ein dal yn gyfrifol yn seiliedig ar ein camau gweithredu. Maent hefyd yn gyfrifol am fonitro a darparu canllawiau strategol ar ddull cynaliadwyedd cyffredinol PDC.

Mae'r tîm Cynaliadwyedd yn gyfrifol am gydlynw'r Strategaeth Carbon Sero Net hon a monitro, mesur ac adrodd ar allyriadau carbon yn flynyddol, i'w cyhoeddi yn yr Adroddiad Cynaliadwyedd Blynnyddol, gofynion adrodd ar Allyriadau Sero Net Llywodraeth Cymru a'u cynnwys yn y Cofnod Rheoli Ystadau a gesglir gan yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) ymhlith mathau eraill o adrodd.

Ein Hamcanion Strategol hyd at 2030

Er mwyn gwireddu ein gweledigaeth ar gyfer 2040 a chyd-fynd â disgwyliadau'r sector cyhoeddus yng Nghymru, mae PDC yn ymrwmo i'r nodau canlynol y gellir eu gweithredu ar draws y tri cwmplas carbon:

- **Datgarboneiddio'r Ystâd (Cwmpas 1 a 2):** Byddwn yn symud yn weithredol i ffwrdd o wresogi tanwydd ffosil ar draws ein 72 adeilad. Rydym yn ymrwmo i 'bolisi dim nwy newydd' ar gyfer pob adeilad newydd, gan symud tuag at bympiau gwres, rhwydweithiau gwres, a chynhyrchu adnewyddadwy estynedig ar y safle wrth archwilio cyfleoedd ar gyfer ynni adnewyddadwy oddi ar y safle a gynhyrchir yn lleol trwy Gytundebau Prynu Pŵer.
- **Cadwyn Gyflenwi ac Arweinyddiaeth Caffael (Cwmpas 3):** Caffael yw ein ffynhonnell allyriadau fwyaf. Byddwn yn sicrhau bod pob tendr mawr (gwerth dros £25k) yn ei gwneud yn ofynnol i gyflenwyr ddangos cynllun lleihau carbon clir, sy'n cyfateb yn uniongyrchol i ganllawiau caffael Gwerth Cymdeithasol a Sero Net Llywodraeth Cymru.
- **Teithio a Chymudo Cynaliadwy (Cwmpas 3):** Gan fanteisio ar ein lleoliadau strategol yng Nghaerdydd, Pontypridd, a Chasnewydd, byddwn yn gweithredu cynllun teithio gweithredol a thrafnidiaeth gynaliadwy i leihau allyriadau cymudwyr erbyn 2030, wrth reoli a gwrthbwysio teithio rhyngwladol yn y tymor hwy.
- **Bioamrywiaeth a Labordai Byw:** Byddwn yn gwella bioamrywiaeth ar draws ein campysau i wella amrywiaeth rhywogaethau ac atafaelu carbon. Byddwn yn cynnwys myfyrwyr, staff ac ymchwilwyr yn uniongyrchol mewn prosiectau bioamrywiaeth a dalfa carbon lleol.

Er mwyn sicrhau atebolrwydd, byddwn yn ymgymryd â'r canlynol:

1. **Llywodraethu:** Mae gan y Pwyllgor Cynaliadwyedd yr adnoddau llawn i fesur, llywodraethu a gyrru lleihau carbon ar draws pob cyfadran ac adran.
2. **Map Ffordd Carbon PDC:** Bydd pob buddsoddiad cyfalaf a newidiadau gweithredol yn dilyn amserlen gam wrth gam y Map Ffordd Carbon, gan ganolbwyntio adnoddau ar ein gweithgareddau sy'n allyrru'r allyriadau uchaf: caffael, nwy a thrydan.
3. **Adrodd Plaen:** Bydd ein hól troed carbon yn cael ei gyfrifo'n flynyddol gan ddefnyddio canllawiau adrodd Sero Net Sector Cyhoeddus diweddaraf Llywodraeth Cymru. Bydd adroddiadau cynnydd yn cael eu cyflwyno i'r Weithrediaeth a Bwrdd y Llywodraethwyr a'u cyhoeddi'n agored i gynnal tryloywder i'n staff, myfyrwyr a'u cyhoeddi'n agored i gynnal tryloywder i'n staff, myfyrwyr a'r cyhoedd ehangach.

Beth yw ein prif ffynonellau allyriadau?

Er mwyn deall ein prif effeithiau carbon, rydym yn categorïddio allyriadau yn dri grŵp penodol o'r enw Cwmpasau 1, 2 a 3. Sefydlwyd y fframwaith hwn gan y Protocol Nwyon Tŷ Gwydr (GHG) i helpu sefydliadau i ddeall, mesur a rheoli eu heffaith hinsawdd gyfan heb gyfri allyriadau ddwywaith.

Mae'r tabl isod yn amlinellu'r gweithgareddau allweddol a gyflawnwn sy'n cynhyrchu'r tri cwmpas hyn o allyriadau.

Scope	Definition	USW Emissions Sources
Scope 1 – Direct Emissions	Emissions from sources owned or controlled by USW.	• Natural gas and other fuels used in boilers for heating and hot water. • University-owned vehicles and fleet operations • Refrigerant leakage from air conditioning and cooling systems
Scope 2 – Indirect Energy Emissions	Emissions associated with the generation of purchased electricity consumed by USW	• Purchased electricity for all buildings across all USW sites.
Scope 3 – Other Indirect Emissions	Emissions arising from activities across USW's value chain that are not directly owned or controlled by the university.	• Purchased goods and services • Capital projects and construction activities • Staff business travel • Staff and student commuting • Waste management and disposal • Water supply and treatment

-
- Transportation and distribution
 - Homeworking
 - Nomination agreements (external accommodation)
-

Llinellau Sylfaen


Yn 2020, cynhyrchwyd ôl troed carbon cyntaf y brifysgol gan ddefnyddio data blwyddyn ariannol 2018/19. Amlinellodd y cyfrifiad hwn ffin yr ôl troed, y fethodoleg a ddefnyddiwyd i gasglu ein hallyriadau, unrhyw ddata a hepgorwyd a dadansoddiad o'r holl allyriadau a fesurwyd. Cyfanswm yr ôl troed carbon oedd 28,480tCO₂e.

Er iddo ddal ôl troed carbon Cwmpasau 1 a 2 yn gywir, ni wireddwyd y llun llawn sy'n gysylltiedig â'n heffeithiau Cwmpas 3 ar y pryd. Fodd bynnag, fe wnaeth creu'r ôl troed hwn dynnu sylw at y ffaith nad oedd rhai gweithgareddau wedi'u cofnodi (oherwydd diffyg data) ac o ganlyniad, ni chawsant eu cynnwys. Dros amser, mae bellach yn llawer cliriach bod arwyddocâd ac effaith Cwmpas 3 yn enfawr yng nghyd-destun ein hól troed carbon cyffredinol. Ac mae rhai categorïau fel teithio i'r gwaith a nwyddau a gwasanaethau a brynwyd yn feysydd effaith allweddol o fewn y gyfres hon o ffynonellau allrydiau.

Ers sefydlu'r strategaeth, mae PDC wedi parhau i ganolbwyntio ar sicrhau ein bod yn adrodd mor agored a phlaen â phosib ar ein holl effeithiau allyriadau ac mae hyn yn cynnwys Cwmpas 3. Rydym wedi gweithio'n galed i ddatblygu systemau data sy'n ein galluogi i adrodd (mor gywir â phosib) ar ein heffeithiau Cwmpas 3 ac mae hyn wedi esblygu wrth i argaeledd data, ansawdd a'r broses ar gyfer trosi'r data hwn wella.

O ganlyniad, mae'r llinellau sylfaen a ddefnyddiwn ar gyfer Cwmpasau 1 a 2 yn wahanol i Gwmpasau 3 yn seiliedig ar aeddfedrwydd a chywirdeb y data a adroddir.

Y flwyddyn llinell sylfaenol safonol a ddefnyddir ar gyfer mesur cynnydd yw 2005 ar gyfer sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru bob tro. Fodd bynnag, dim ond perfformiad ynni Cwmpasau 1 a 2 y mae'r llinell sylfaen hon yn ei olrhain ac nid yw bellach yn berthnasol o ran cywirdeb yn seiliedig ar sut mae'r Brifysgol yn gweithredu nawr. Roedd y flwyddyn hon hefyd cyn cyfuniad a wnaeth y Brifysgol yn 2012 gan gynyddu maint ystâd y Brifysgol felly. Fodd bynnag, at ddibenion darlunio newid a chynnydd, rydym wedi'i gynnwys yn y graff isod.



Cyfrifir ein hól troed carbon yn flynyddol gan fabwysiadu'r fethodoleg o fewn y Protocol Nwyon Tŷ Gwydr, y mae Fframwaith Allyriadau Carbon Safonol (SCEF) yr EAUC yn seiliedig arno. Rydym yn mabwysiadu 'model gweithredol' o adrodd ar allyriadau yn seiliedig ar y gweithgareddau a'r prosesau a gyflawnir ar draws ein safleoedd ac mae hyn yn cwmpasu ein blwyddyn ariannol 1af Awst – 31ain Gorffennaf yn flynyddol. Adroddir allyriadau PDC mewn tunnell o garbon deuocsid cyfatebol (tCO₂e) ac ar gyfer Cwmpasau 1 a 2 a'r rhan fwyaf o Gwmpas 3, cyfrifir y rhain gan ddefnyddio'r ffactorau trosi perthnasol o Adran Diogelwch Ynni a Sero Net y Llywodraeth. Cyfrifir prynu nwyddau a gwasanaethau gan ddefnyddio ffactorau trosi'r Llywodraeth yn ôl cod SIC 2022 fel y fersiwn ddiweddaraf a gyhoeddwyd ar gyfer y categori adrodd hwn.

Mae'r gwerthoedd sylfaenol isod yn ymgorffori allyriadau o ar draws ein gweithrediad cyfan a byddant yn cael eu defnyddio i olrhain cynnydd yn erbyn ein targedau. Rydym yn parhau i wella ein methodoleg cyfrifyddu carbon yn unol ag arfer gorau ac i sicrhau bod ein rhestr eiddo yn adlewyrchu unrhyw newidiadau sefydliadol yn gywir ac yn onest ac yn blaen yn seiliedig ar ddata sydd ar gael i ni.

Ar gyfer y flwyddyn adrodd 1af Awst – 31ain Gorffennaf 2024, amlinellir ein hól troed allyriadau carbon isod.

Cwmpasau 1 a 2 (tCO₂e).

Cwmpas	Blwyddyn sylfaen: 2018-19	Blwyddyn adrodd: 2023- 24	Newid %	Blwyddyn darged
Scope 1				
Nwy naturiol	3,093	2,569	-18.4%	2040
Nwyon rheweddio emissions	0	199	+100%	2040
Fflyd	54	7	-87%	2040
Scope 2				
Trydan grid	4,385	2,215	-50%	2040
Total emissions:	7,532	4,784	-36%	

Allyriadau Cwmpas 3 (tCO₂e)

Cwmpas	Blwyddyn sylfaen: 2018- 19	Blwyddyn adrodd: 2023-24	Newid %	Blwyddyn darged
Teithiau busnes	611	759	24%	2040
Teithio staff i'r gwaith	859	600	-30%	2040
Gweithio gartref	772	772	0%	2040
Teithio myfyrwyr rhwng tymhorau	407	121	-70%	2040
Teithio myfyrwyr ar ddechrau a diwedd tymor	16,468	9,743	-41%	2040
Gwastraff a gynhyrchir yn ystod gweithrediadau	16	4	-75%	2040
Cyflenwi a thrin dŵr	40	44	10%	2040
Nwyddau a gwasanaethau a brynwyd (gan gynnwys cludiant a dosbarthu)	17,604	15,686	-11%	2040
Allyriadau tanwydd ac ynni	1,114	1,119	0%	2040
Allyriadau sy'n gysylltiedig â thir	27	27	0%	2040
Allyriadau sy'n gysylltiedig â thir	-46	-46	0%	2040
Cytundebau Enwebu		432	100%	2040
Aros mewn gwestai		51	100%	2040
Cyfanswm	37,650	29,312	-22%	
Newid o'i gymharu â'r gwaelodlin 2022-23		-28%		

Yn flaenorol, fe wnaethom fabwysiadu blwyddyn sylfaenol ar gyfer Cwmpas 3 a oedd yn cyd-fynd â 2018-19, fodd bynnag, yn dilyn gwelliannau sylweddol mewn casglu data ac adrodd ar gyfer categorïau ychwanegol yn ystod y blynnyddoedd diwethaf, fe wnaethom ddiweddarau'r

flwyddyn sylfaenol i 2022-32 gan fod hyn yn fwy cynrychioliadol o'r effeithiau gwirioneddol sy'n gysylltiedig â'n safleoedd ac yn gwneud cymariaethau ac adrodd yn y dyfodol yn fwy dibynadwy.

Ein hallyriadau Cwmpas 3 yw'r cyfrannwr mwyaf o bell ffordd at ein hól troed carbon cyffredinol. Ar hyn o bryd maent yn cynnwys 86% o'n hól troed cyfan ac yn cynrychioli'r holl ffynonellau allyriadau yr ydym yn gyfrifol amdanynt yn uniongyrchol megis teithio busnes a chymudo, allyriadau o gyflenwi a thrin dŵr, prosesu gwastraff a'r nwyddau a'r gwasanaethau a brynwyd a ddefnyddiwn ar draws y Brifysgol.

Fodd bynnag, mae'r categori hwn yn cael ei ddominyddu gan fyfyrwyr yn cymudo i'n campysau ac oddi yno ynghyd â nwyddau a gwasanaethau a brynwyd, gyda'r ddau gategori hyn ar eu pen eu hunain yn cyfrannu at 87% o gyfanswm gwerth Cwmpas 3. O ganlyniad, byddant yn ffurfio prif ffocws ein sylw yn y blynyddoedd i ddod.


Cynnydd wrth leihau allyriadau

Mae PDC wedi cymryd camau sylweddol wrth leihau ei hallyriadau anuniongyrchol drwy fuddsoddi mewn ynni adnewyddadwy (solar ffotofoläig), prosiectau datgarboneiddio gwres a rhesymoli gofod yn ogystal â gwelliannau effeithlonrwydd ynni ar draws y campysau. Mae hyn wedi arwain at ostyngiad o 44% mewn allyriadau Cwmpas 1 a 2 ers blwyddyn sylfaenol 2018/19.

Bydd lleihau'r galw am ynni a gwella effeithlonrwydd ein hadeiladau yn parhau i fod y ganolog i leihau allyriadau carbon ar ein taith tuag at Sero Net erbyn 2040. Rydym yn cychwyn ar y trawsnewidiad mwy sylweddol y mae angen i ni ei wneud ar draws ein hystâd drwy ddatgarboneiddio ein systemau gwresogi nwy gyda phympiau gwres yn cael eu hintegreiddio i'n blociau Llety a mwy o osodiadau wedi'u cynllunio yn y blynyddoedd academaidd dilynol, a thrwy ein Strategaeth Ystadau rydym yn parhau i osod atebion carbon isel ym mhob adnewyddiad ac adeilad newydd.


Rydym hefyd yn gweithio'n weithredol gyda rheolwyr prosiectau a chontractwyr allanol i sicrhau bod prosiectau adeiladu newydd, fel Calon a Sefydliad Ceiropracteg Cymru Newydd, yn cynnwys cymaint o dechnolegau arbed a chynhyrchu ynni ag sy'n ymarferol. Rydym hefyd yn archwilio'r potensial ar gyfer cysylltu â chynlluniau ynni adnewyddadwy allanol ar raddfa fawr fel ffermydd gwynt lleol a chynlluniau gwresogi ardal ar gyfer ein campysau yng Nghaerdydd a Chasnewydd i gefnogi'r trawsnewidiadau ynni hyn wrth liniaru costau ynni cynyddol.

Allyriadau carbon Cwmpas 1 a 2 : Rhagamcanedig vs Gwirioneddol




Gyda'r datgarboneiddio parhaus o'n cyflenwadau ynni a'r buddsoddiad parhaus mewn technolegau ynni adnewyddadwy, rydym yn rhagweld y bydd allyriadau carbon Cwmpas 1 a 2 yn gostwng i 3,765tCO₂e erbyn 2030.

Allyriadau carbon Cwmpas 3: Rhagamcanedig vs Gwirioneddol




Mae allyriadau Cwmpas 3 yn llawer anoddach i'w datgarboneiddio ac ar gyfer rhai ffynonellau, mae angen mwy o ymyrraeth gan sefydliadau partner a diwydiant a fydd yn ofynnol i gyflawni'r nodau tymor hir. Yn ôl eu natur, mae gennym lai o reolaeth dros rai o'r ffynonellau sy'n dod o fewn Cwmpas 3 ac mae llawer yn hanfodol i'r ffordd rydym yn gwneud busnes. Felly, mae angen i ni ganolbwyntio ar y meysydd effaith uchel hynny yn gyntaf y gallwn ddylanwadu arnynt yn haws cyn mynd i'r afael â'r effeithiau mwy heriol fel teithio awyr.

Cyfanswm Allyriadau Carbon yn ôl Cwmpas – 2023 - 24



Mae'r llun yn glir iawn o ran o lle mae mwyafrif ein hallyriadau'n tarddu. O'r 87% y gellir eu priodoli i Cwmpas 3, mae bron i 80% o gyfanswm ôl troed carbon PDC yn dod o fewn dim ond dau gategori Cwmpas 3 (Nwyddau a Gwasanaethau a Brynwyd, a Theithio i'r Gwaith). Er bod Cwmpasau 1 a 2 o dan reolaeth weithredol uniongyrchol PDC a byddant yn cael eu targedu ar gyfer gostyngiad cyflym ac absoliwt, bydd cyflawni cyflwr Net Sero gwirioneddol yn dibynnu'n fawr ar ein gallu i ddylanwadu ar ein cadwyn gyflenwi Cwmpas 3 ac ymddygiadau cymudwyr a'i ddatgarboneiddio. Fodd bynnag, ni fyddwn yn colli golwg ar y dylanwad sydd gennym dros Cwmpasau 1 a 2 a'r cyfle i ddatgarboneiddio ein cyflenwad ynni.

Allyriadau yn ôl Ffynhonnell (tCO₂e)



Mae'r graff uchod yn rhoi cyd-destun i'r rhaniad cyfredol o allyriadau Cwmpas 3. Mae'n dangos yn glir mai dim ond dau gategori sy'n gyrru'r mwyafrif helaeth o effaith amgylcheddol. Nwyddau a gwasanaethau a brynir yw'r cyfrannwr unigol mwyaf sef 15,686tCO₂e, wedi'i ddilyn gan gymudo staff a myfyrwyr, sy'n cyfrif am 13,594tCO₂e. Gyda'i gilydd, mae'r ddwy ffynhonnell hyn yn cysgodi pob gweithgaredd arall yn llwyr. Mae'r wyth ffynhonnell sy'n weddill, gan gynnwys gweithio gartref, cytundebau enwebu, a theithio busnes, yn cyfrannu llai na 1,000tCO₂e ar eu pen eu hunain, gyda chynhyrchu gwastraff gweithredol yn cofrestru'r ôl troed isaf gyda dim ond 4tCO₂e.

Gyrwyr Deddfwriaethol

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru Ddeddf yr Amgylchedd 2016 gyda'r bwriad o osod Cymru fel economi werdd, carbon isel, sy'n barod i addasu i effeithiau newid hinsawdd. Mae Rhan 2 o'r ddeddfwriaeth hon yn canolbwyntio ar newid hinsawdd a chyllidebau carbon ac yn cynnwys targed lleihau allyriadau statudol. Mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn gostyngiad o 95% mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr erbyn 2050 o'i gymharu â lefelau allyriadau 1990 ond mae am fynd ymhellach a chyflawni sero net erbyn 2050, yn unol ag ymrwymiad Deddf Newid Hinsawdd 2008 Llywodraeth y DU. Ar ben hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi cyfleu ei huchelgais i bob sefydliad yn y sector cyhoeddus gyflawni sero net erbyn 2030 ac felly mae'n edrych ar y sector hwn i yrru Cymru i ddyfodol carbon isel.

Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**, darn o ddeddfwriaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol yn gyfreithiol i gyrrff cyhoeddus, ac sy'n dylanwadu'n fawr ar y sector addysg uwch, ystyried effaith hirdymor eu penderfyniadau. Mae'n cynnwys y Saith Nod Llesiant ac er mwyn cyd-fynd â chyfraith Cymru, rhaid i sefydliadau gyfrannu'n weithredol at nodau fel creu "Cymru Gydnerth" a "Chymru Gyfrifol yn Fyd-eang".

Ochr yn ochr â Deddf yr Amgylchedd, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 a chanllawiau Llywodraeth Cymru "Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel" yn nodi eu dull o leihau allyriadau a chynyddu effeithlonrwydd er mwyn sicrhau'r manteision ehangach i Gymru, gan sicrhau cymdeithas decach ac iachach drwy wella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r canllawiau'n cynnwys dros 100 o bolisiau a chynigion sy'n lleihau allyriadau'n uniongyrchol ac yn cefnogi twf yr economi carbon isel.

Mae'r brifysgol yn cefnogi Deddfau Llywodraeth Cymru a'r DU ac mae'r gweithgareddau rheoli carbon sydd eu hangen i ddatgarboneiddio wedi'u hymgorffori yn ein gwerthoedd craidd: bod yn broffesiynol, yn ymatebol, yn ysbrydoledig, yn greadigol ac yn gydweithredol. Ar ben hynny, mae ein Strategaeth PDC 2030 yn canolbwyntio ar ychwanegu gwerth at fywydau, cymunedau a'r economi, sy'n cyd-fynd â chynigion Llywodraeth Cymru a Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig.

Llywodraethu a Rôl

Mae PDC yn cydnabod y bydd ymgysylltu cadarn â rhanddeiliaid o bob cwr o'r brifysgol yn hanfodol ar gyfer gweithredu hinsawdd yn llwyddiannus. Yn y pen draw, Bwrdd y Llywodraethwyr sy'n gyfrifol am ôl troed carbon y brifysgol. Bydd Cyfarwyddwr Ystadau a

Chyfleusterau a Phennaeth Cynaliadwyedd ac Ynni yn adrodd ar yr ôl troed carbon a'r perfformiad amgylcheddol cysylltiedig i'r Bwrdd yn flynyddol. Bydd y tîm Cynaliadwyedd yn arwain cyflawni'r strategaeth hon.

Mae Pwyllgor Cynaliadwyedd wedi'i sefydlu sy'n cynnwys rhanddeiliaid allweddol y brifysgol. Bydd y Pwyllgor Cynaliadwyedd ynghyd â phob Cyfadran ac Adran yn gyfrifol am ymgysylltu ag ymddygiadau cynaliadwy ac effeithlon o ran ynni a'u hyrwyddo er mwyn i'r strategaeth fod yn llwyddiannus. Bydd adnoddau mewnol ac allanol yn cael eu defnyddio lle bo'n berthnasol ac fel y'i nodir, i gynorthwyo wrth gyflawni ein targedau.

Bydd cynnydd yn erbyn y strategaeth hon yn cael ei gyflwyno'n ffurfiol o leiaf unwaith y flwyddyn i'r Pwyllgor Cynaliadwyedd ac i Bwyllgor Gweithredol PDC i'w hysbysu am gyflawniadau allweddol a chyfeiriad y daith. Bydd Adroddiadau Cynaliadwyedd Blynnyddol hefyd yn cael eu cynhyrchu yn crynhoi ein llwyddiannau, ein cynnydd a'n tueddiadau allyriadau.

Ffigwr 1: Dangosir y Strwythur Llywodraethu ac Adrodd ar gyfer Carbon Sero Net 2040 isod.




Rhagamcaniad Allyriadau Carbon PDC (2018/19 – 2030)

Mae'r strategaeth hon yn mynd â ni hyd at 2030, ac erbyn hynny, gyda chymorth y targedau a gynigiwyd, byddwn wedi lleihau ein hallyriadau carbon o leiaf 50% ar gyfer Cwmpasau 1, 2 a 3. Bydd hyn yna yn sicrhau ein bod yn parhau ar y trywydd iawn i gael gwared ar y 50% sy'n weddill o'n hallyriadau dros y 10 mlynedd nesaf hyd at 2040.

Yn seiliedig ar ddata presennol, amlinellir llwybr ddatgarboneiddio syml isod ar gyfer pob ffynhonnell allyriadau hyd at 2030. Mae'r targed dros dro hwn yn rhoi nod tymor byr i ni a

modd o olrhain cynnydd. Nid yw hyn yn cynnwys unrhyw fath o wrthbwysu ac mae'n dibynnu'n bennaf ar leihau allyriadau o flwyddyn i flwyddyn. Bydd ein prif darged lleihau carbon ar gyfer 2040 yn parhau i fod yn darged "absoliwt" ac ni fydd yn gymharol â metrigau fel FTE, Arwynebedd Mewnol Crynswth na throsiant. Er y byddwn yn defnyddio'r metrigau hyn i fonitro a gwerthuso cynnydd gan eu bod yn ddangosyddion defnyddio o berfformiad ynni a charbon.

Rydym yn cydnabod y bydd angen i ni ddatblygu modelu 'o'r gwaelod i fyny' mwy manwl ymhellach ymlaen wrth i ni barhau â'r daith i Sero Net 2040 a fydd yn cynnwys ystyried gofynion gwrthbwysu yn enwedig ar gyfer yr allyriadau gweddilliol hynny fel teithio awyr sy'n anodd eu lleihau.



